

# Polisi Cytundeb Amser i Ffwrdd a Chyfleusterau

<b>Cymeradwywyd gan</b>	<b>Y Cyngor Llawn</b>
<b>Dyddiad Cymeradwyo</b>	<b>2012</b>
<b>Dyddiad Rhoi ar Waith</b>	<b>2012</b>
<b>Perchennog</b>	<b>LD</b>
<b>Dyddiad Adolygu</b>	<b>31/03/23</b>

# Polisi - Cytundeb Amser i Ffwrdd a Chyfleusterau

## Rheoli Fersiynau

Mae'r ddogfen hon yn amodol ar adolygiad rheolaidd oherwydd newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi. Gellir dod o hyd i'r fersiynau diweddaraf o'n cyhoeddiadau ar ein gwefan. Cyn cysylltu â ni ynghylch cynnwys y ddogfen hon, argymhellir i chi gyfeirio at y fersiwn diweddaraf ar y wefan a'r canllawiau perthnasol.

Fersiwn	Dyddiad Cymeradwyo	Cymeradwywyd gan	Nodiadau / newidiadau
f1.0	2012	Andrea Malam	Polisi Newydd
f2.0	25.04.18	Andrea Malam	Ail-fformatio
F2.1	20.07.22	David Kennedy	Ail-fformatio

# Polisi - Cytundeb Amser i Ffwrdd a Chyfleusterau

## Cynnwys

Rheoli Fersiynau	2
Cynnwys	3
Rhwing	4
ac	4
1. Diffiniad o dermau	4
2. Dyddiad dechrau	4
3. Cyflwyniad	4
4. Cynrychiolaeth	5
5. Cyfleusterau cyffredinol	5
6. Amser i ffwrdd ar gyfer cynrychioli undeb llafur cyffredinol	6
7. Swyddogaeth cynrychiolwyr a swyddogion	7
8. Amser i Ffwrdd i Gynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch	8
9. Amser i Ffwrdd ar gyfer Cynrychiolwyr Dysgu'r Undeb	8
10. Amser i ffwrdd i Gynrychiolwyr Gwybodaeth ac Ymgynghori	8
11. Amser i ffwrdd ar gyfer Prosiectau Manwl o fewn yr Awdurdod	9
12. Amser i Ffwrdd ar gyfer Gweithgareddau Undeb Llafur	9
13. Amser i Ffwrdd ar gyfer Ysgrifenyddion Cangen ac Uwch Gynrychiolwyr Undeb	10
14. Trefniadau arbennig ar gyfer amser i ffwrdd	11
15. Amser i ffwrdd ar gyfer gweithleoedd cysylltiol	12
16. Tal am amser i ffwrdd	12
17. Hyfforddiant	12
18. Gweithdrefnau	13
19. Cyfleusterau undeb llafur	14
20. Dim niwed	14
21. Anghydfod	14
22. Cwynion sy'n codi trwy weithredu'r cytundeb hwn	15
23. Newid neu derfynu cytundeb	15

# Polisi - Cytundeb Amser i Ffwrdd a Chyfleusterau

## Cytundeb Amser i ffwrdd a Chyfleusterau 2012

### Rhwng

CYNGOR SIR DDINBYCH

ac

[Enw'r Undeb]

### 1. Diffiniad o dermau

Yn y Cytundeb hwn:

Y Sefydliad

Cyngor Sir Ddinbych

Yr Undeb

[Enw'r Undeb]

### 2. Dyddiad dechrau

Mae'r Cytundeb hwn yn dechrau ar [dyddiad]

### 3. Cyflwyniad

- 3.1 Mae'r Sefydliad yn cefnogi'r system o gydfargeinio a'r egwyddor o ddatrys problemau perthynas gweithwyr drwy drafod a chytuno.
- 3.2 Mae pawb yn cydnabod ei bod yn hanfodol i'r gweithlu gael ei gynrychioli'n briodol gan yr undebau cydnabyddedig er mwyn sicrhau perthynas dda rhwng gweithwyr. Yn ogystal, mae pob ochr yn credu bod undeb effeithiol sy'n wir gynrychioli yn datblygu perthynas gweithwyr y gweithlu.

## **Polisi - Cytundeb Amser i Ffwrdd a Chyfleusterau**

- 3.3 Mae'r Ddeddf Undeb Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cyfnerthu) 1992 (A168(1( a (2))) yn rhoi hawl i weithwyr gael amser i ffwrdd o dan amrywiol amgylchiadau. Mae'r canlynol yn cynnwys y darpariaethau hyn fel y cytunwyd gan yr Undebau a'r Sefydliad yn y cyswllt hwn.
- 3.4 Mae'r ddogfen hon yn cefnogi'r Telerau ac Amodau Cenedlaethol priodol sy'n berthnasol i weithwyr yr awdurdod.

### **4. Cynrychiolaeth**

- 4.1 Bydd darpariaeth y cytundeb hwn yn berthnasol i gynrychiolwyr yr Undeb, a etholwyd neu a benodwyd yn unol â rheolau'r Undeb.
- 4.2 Bydd yr Undeb yn penderfynu ar y nifer priodol o gynrychiolwyr y dymunir eu penodi, gan ystyried maint a lleoliad ei aelodaeth. Mae'r Undeb yn cytuno i hysbysu'r Sefydliad yn ysgrifenedig ynglŷn ag enwau holl gynrychiolwyr etholedig gynted â phosibl ac i hysbysu'r Sefydliad am unrhyw newidiadau dilynol. Enwau'r sawl a hysbysir y Sefydliad fydd unig gynrychiolwyr aelodaeth yr Undeb.

### **5. Cyfleusterau cyffredinol**

- 5.1 Bydd y Cyngor yn darparu rhestr berthnasol o weithwyr newydd a gweithwyr sydd wedi gadael unwaith y mis i Ysgrifennydd y Gangen/Swyddog Undeb.
- 5.2 Bydd y Cyngor yn darparu cyfleusterau rhesymol i Gynrychiolwyr Cangen egluro manteision bod yn aelod o Undeb Llafur i aelodau newydd o'r fath.
- 5.3 Gall Swyddogion Cangen/Stiwardiaid/Cynrychiolwyr ddefnyddio system postio mewnol y Cyngor ar gyfer dosbarthu post mewnol. Wrth wneud hyn, mae'n rhaid cydymffurfio â dyddiadau cau'r Cyngor yn unol â'r amserlenni a osodwyd. Yr Undeb Llafur sy'n gyfrifol am anfon holl bost allanol.
- 5.4 Gall y Cyngor ddarparu swyddfa addas sy'n cloi gyda lle ar gyfer dodrefn swyddfa a darparu ffôn. Hefyd, gellir darparu llety addas o fewn y canolfannau gweinyddu ar gyfer cyfarfodydd yn rhad ac am ddim, lle bo hynny'n ymarferol ac ar gael.
- 5.5 Gall Swyddogion Cangen/Stiwardiaid/Cynrychiolwyr ddefnyddio hysbysfyddau penodedig a defnyddio system ffôn mewnol a nodiadau lotws ar gyfer materion Undeb. Lle bydd yna gost ar gyfer defnyddio ffôn e.e. rhwng sefydliadau'r Cyngor, yna bydd galwadau'n cael eu hawdurdodi a'u cofnodi. Mae'n rhaid talu am holl alwadau y tu allan i Gyngor Sir Ddinbych a

## Polisi - Cytundeb Amser i Ffwrdd a Chyfleusterau

galwadau i bencadlys Undeb drwy system cofnodi'r alwad.

- 5.6 Gall Swyddogion Cangen/Stiwardiaid/Cynrychiolwyr ddefnyddio cyfleusterau argraffu'r cyngor a chodir y gyfradd economaidd llawn ar gyfer cyfleusterau o'r fath. Mae'n rhaid cofnodi a thalu am lungopïo ar y raddfa briodol.
- 5.7 Bydd yr Ysgrifennydd Cangen yn darparu rhestr o holl Swyddogion/Stiwardiaid/Cynrychiolwyr y Gangen a'r ardaloedd maent yn gyfrifol amdanynt.

### 6. Amser i ffwrdd ar gyfer cynrychioli undeb llafur cyffredinol

- 6.1 Mae'r cytundeb hwn yn ceisio sefydlu polisi a gweithdrefn ffurfiol ar ddyletswyddau a
- 6.2 gweithgareddau undeb llafur yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol. Sylweddolir na ellir bod yn rhagnodol ynglŷn â holl ddyletswyddau, gweithgareddau a'r amser sydd ei angen i ymgymryd â nhw. Cytunir na fydd ceisiadau am amser i ffwrdd yn cael eu gwrthod yn afresymol.
- 6.3 Bydd cynrychiolwyr yn cael hawl i amser i ffwrdd gyda thâl yn ystod oriau gwaith i ymgymryd â dyletswyddau ar gyfer un neu fwy o rolau Undeb sy'n ymwneud ag unrhyw agwedd o gydfargeinio a chynrychioli aelodau unigol.
- 6.4 Mae Dyletswyddau Undeb Llafur yn ymwneud â negydu gyda'r cyflogwr am faterion sy'n dod o fewn adran 178(2) o'r Ddeddf Undeb Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cyfnerthu) 1992 (TULR(C)A) ac unrhyw swyddogaethau eraill ar ran gweithwyr y mae'r cyflogwr wedi cytuno y gall yr Undeb ymgymryd â nhw. Gall materion o'r fath gynnwys: telerau ac amodau cyflogaeth gan gynnwys amodau gwaith corfforol
  - Ymgysylltu, terfynu neu atal cyflogaeth a dyletswyddau gwaith
  - Dyrannu gwaith neu ddyletswyddau gwaith fel rhwng gweithwyr neu grwpiau o weithwyr
  - Disgyblu ac achwyniad
  - Gweithgareddau sy'n ymwneud ag aelodaeth undeb llafur gynghori
  - Cyfleusterau ar gyfer swyddogion yr Undeb
  - peiriannau ar gyfer negydu neu ymgynghori a gweithdrefnau eraill; gweithdrefnau ar gyfer cydfargeinio, anghydfod, cyd ymgynghori, cyfathrebu gydag aelodau a swyddogion undeb llafur eraill.
- 6.5 Bydd swyddogion Cangen a stiwardiaid fel arfer yn cael hyd at 100 awr y flwyddyn os bydd angen amser i ffwrdd i ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau Undeb Llafur cydnabyddedig fel y diffinir yn [6.3] uchod. Nid yw'r dyraniad hwn yn hawliad i'w gymryd heb ystyried yr angen a bydd yn amodol ar dderbyn awdurdod gan y Pennaeth Gwasanaeth neu Bennaeth priodol.

## Polisi - Cytundeb Amser i Ffwrdd a Chyfleusterau

Bydd hyn ar sail pro rata oriau cytundebol eu gwaith ar gyfer gweithwyr rhan amser ac ar gyfer cynrychiolwyr mewn ysgol i adlewyrchu blwyddyn academaidd yr ysgol.

- 6.6 Bydd Swyddogion Cangen yn cael amser i ffwrdd rhesymol gyda thâl am fynychu cyfarfodydd Cyd Ymgynghorol, gan gynnwys rhag- gyfarfodydd.
- 6.7 Bydd Swyddogion Cangen yn cael amser i ffwrdd rhesymol gyda thâl i fynychu cyfarfodydd gyda rheolwyr pan fydd cyfarfodydd o'r fath yn cael eu trefnu gyda chytundeb rheolwr.
- 6.8 Bydd cyfarfodydd rhwng swyddogion cangen a rheolwyr fel arfer yn cael eu cynnal yn ystod oriau gwaith arferol. I Swyddogion Cangen sydd â phatrwm gwaith sy'n cynnwys gweithio y tu allan i oriau gwaith arferol y cyngor, gwneir pob ymdrech i gytuno ar drefniadau addas ar gyfer mynychu.
- 6.9 Bydd y flwyddyn yn rhedeg o Ebrill i Mawrth ar gyfer staff nad ydynt yn gweithio mewn ysgol a fesul blwyddyn academaidd i holl staff mewn ysgol.

## 7. Swyddogaeth cynrychiolwyr a swyddogion

- 7.1 Mae'r Sefydliad a'r Undeb yn cydnabod bod swyddogaethau perthynas ddiwydiannol cynrychiolwyr a swyddogion yn ddyletswyddau pwysig yn ogystal â'u dyletswyddau fel gweithwyr y Sefydliad. Mae eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau fel a ganlyn: Yn gyfrifol am ac ar gyfer grŵp o aelodau;
  - Ymgymryd â dyletswyddau cysylltiadau diwydiannol gan weithredu o fewn polisiau'r Undeb. Gall materion gynnwys cwynion aelodau, disgyblu, dysgu, iechyd a diogelwch, cyfleoedd cyfartal, amodau gwasanaeth ac unrhyw fater a restrwyd yn Adran
  - 6.3 o'r Cytundeb hwn. Ceisio aelodaeth Undeb Llafur llawn ymhlith holl weithwyr y Sefydliad;
  - Cyfathrebu gydag aelodau a chyfathrebu gyda Rheolwyr y Cydfyrddau Negydu a'r cyrff Undeb perthnasol;
  - Cynrychioli'r Undeb yn y cydnegydu a'r cydymgyngori ar lefel leol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol;
  - Cyfarfod gyda chynrychiolwyr eraill, swyddogion neu swyddogion undeb llawn amser ar faterion o fewn y Cytundeb hwn;
  - Mynychu cyfarfodydd yr Undeb y mae'r unigolyn yn ei gynrychioli neu'n swyddog
  - Ceisio sicrhau y cydymffurfir â chytundebau;

## **Polisi - Cytundeb Amser i Ffwrdd a Chyfleusterau**

- Trefnu cyfarfodydd i aelodau yn ystod oriau gwaith yn unol â Chod Ymarfer ACAS ac unrhyw gytundebau lleol cyffredinol.

### **8. Amser i Ffwrdd i Gynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch**

- 8.1 Mae'r Undeb Llafur yn gyfrifol am benodi Cynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch. Mae gan y Sefydliad ddyletswydd i ganiatáu amser iffwrdd i gynrychiolwyr diogelwch gyda thâl fel bo'r angen at ddibenion: Ymgymryd â'u swyddogaethau o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch;
- Ymgymryd â hyfforddiant ar gyfer eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau. Rhagwelir y bydd angen mwyafswm o 30 awr fesul cynrychiolydd fesul blwyddyn. Os yw'r swydd hon yn ychwanegol at swydd y Stiward/Swyddog/Cynrychiolydd Cangen, ni ddylai'r oriau fod yn fwy na 130 mewn cyfanswm faint bynnag o swyddi sydd gan bob Stiward/Swyddog Cangen.
  - Mynychu cyfarfodydd iechyd a diogelwch ar lefelau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol lle bo'n briodol.

### **9. Amser i Ffwrdd ar gyfer Cynrychiolwyr Dysgu'r Undeb**

- 9.1 Mae gan Gynrychiolwyr Dysgu yr Undeb hawl i gymryd amser rhesymol i ffwrdd ar gyfer y dibenion canlynol:
- Nodi a dadansoddi anghenion dysgu neu hyfforddi;
  - Darparu gwybodaeth a chynghor am faterion dysgu neu hyfforddi;
  - Trefnu ar gyfer dysgu neu hyfforddi;
  - Hybu gwerth dysgu a hyfforddi;
  - Ymgynghori â Rheolwyr y Sefydliad mewn perthynas â gweithgareddau o'r fath;
  - Paratoi ar gyfer gweithgareddau o'r fath;
  - Ymgymryd â hyfforddiant ar gyfer eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau. Rhagwelir y caniateir mwyafswm o 30 awr, os bydd angen, fesul cynrychiolydd fesul blwyddyn. Os yw'r rôl hon yn ychwanegol at rôl y Stiward/Swyddog/Cynrychiolydd Cangen, ni ddylai'r oriau fod yn fwy na chyfanswm o 130, faint bynnag o rolau sydd gan bob Stiward/Swyddog/Cynrychiolydd Cangen.

### **10. Amser i ffwrdd i Gynrychiolwyr Gwybodaeth ac Ymgynghori**

- 10.1 Mae gan Gynrychiolwyr Gwybodaeth ac Ymgynghori hawl i gymryd amser rhesymol i ffwrdd gyda thâl yn ystod oriau gwaith i ymgymryd â'u swyddogaethau fel cynrychiolydd.



## **Polisi - Cytundeb Amser i Ffwrdd a Chyfleusterau**

- 10.2 Mae Cynrychiolwyr Gwybodaeth ac Ymgynghori wedi eu hamddiffyn yn erbyn diswyddo annheg neu golled o dan y rheoliadau ar gyfer camau sy'n ymwneud â'r rheoliadau, yr unig eithriad yw lle maent wedi torri rheolau cyfrinachedd y Sefydliad.
- 10.3 Rhagwelir y caniateir mwyafswm o 30 awr, os bydd angen, fesul cynrychiolydd fesul blwyddyn. Os yw'r rôl hon yn ychwanegol at rôl y Stiward/Swyddog/Cynrychiolydd Cangen, ni ddylai'r oriau fod yn fwy na chyfanswm o 130, faint bynnag o rolau sydd gan bob Stiward/Swyddog/Cynrychiolydd Cangen.

### **11. Amser i ffwrdd ar gyfer Prosiectau Manwl o fewn yr Awdurdod**

- 11.1 Bydd Stiwardiaid/Swyddogion/Cynrychiolwyr yn cael amser rhesymol i ffwrdd gyda thâl yn ystod oriau gwaith i ymgymryd â'u swyddogaethau fel cynrychiolydd ar gyfer prosiect manwl penodol o fewn yr Awdurdod. Cytunir ar drefniadau cyn i'r prosiect ddechrau.
- 11.2 Lle mae yna achos cymhleth penodol o fewn y gweithle sy'n debygol o fod angen llawer o amser yr undeb, dylid cytuno ar ofynion y cynrychiolydd ar ddechrau'r achos a bydd yr oriau a ganiateir yn fwy na'r 100 awr a ddyrannwyd.

Bydd hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd drwy gydol yr achos i sicrhau bod yr amser a ddyrannwyd yn ddigonol.

### **12. Amser i Ffwrdd ar gyfer Gweithgareddau Undeb Llafur**

- 12.1 I weithredu'n effeithiol ac yn ddemocrataidd, mae Undebau Llafur angen cyfraniad gweithredol yr aelodau. I sicrhau bod cyfarfodydd y gweithle yn cynnwys cynrychiolaeth lawn, lle bynnag bo hynny'n bosibl, bydd cynrychiolwyr ac aelodau undeb llafur sy'n derbyn tâl amser i ffwrdd yn derbyn caniatâd ar gyfer y gweithgareddau canlynol: Mynychu cyfarfodydd yn y gweithle i drafod a phleidleisio ar ganlyniad trafodaethau;
- Cyfarfod holl swyddogion Undeb llawn amser i drafod materion sy'n berthnasol i'r gweithle;
  - Pleidleisio mewn etholiadau Undeb.
  - Bydd trefniadau ar wahân yn berthnasol mewn ysgolion.
- 12.2 Mae'r Sefydliad a'r Undebau hefyd yn cydnabod ei fod er budd gweithrediad effeithiol a democrataidd Undebau bod cynrychiolwyr neu undebau yn cyfrannu mewn gweithgareddau eraill yr Undeb Llafur. Bydd amser i ffwrdd gyda thâl rhesymol yn cael ei ganiatau i'r dibenion

## Polisi - Cytundeb Amser i Ffwrdd a Chyfleusterau

hyn a all gynnwys: Cyfrannu, fel cynrychiolydd mewn cyfarfodydd cyrff ymgynghorol a chreu polisi swyddogol o'r Undeb fel cynadleddau blynyddol neu gyfarfodydd rhanbarthol;

- Cynrychioli'r Undeb ar gyrff allanol fel pwyllgorau neu sefydliadau gwaith o fewn y strwythur Undeb swyddogol;
- Swydd ar gyrff swyddogol yr Undeb;

12.3 Bydd yr Undeb yn hysbysu'r Sefydliad ar ddechrau pob blwyddyn o galendr digwyddiadau o'r fath lle bydd hynny'n bosibl a'r nifer tebygol o gynrychiolwyr fydd angen mynychu.

12.4 Ni chaniateir amser i ffwrdd ar gyfer gweithgareddau Undeb Llafur sy'n cynnwys camau gweithredu eu hunain. Nid yw gweithgareddau o'r fath yn denu amser i ffwrdd gyda thâl. 12.5 Bydd gan Swyddogion Cangen hawl i amser rhesymol i ffwrdd i fynychu Cynadleddau

Llywodraeth Leol cenedlaethol ac arbennig, cyfarfodydd cenedlaethol a rhanbarthol. Os a phan fydd hynny'n briodol, bydd chyfleusterau amser i ffwrdd addas a rhesymol yn cael eu cytuno rhwng y Pennaeth Gwasanaeth/Pennaeth, Pennaeth AD Strategola'r Undeb. Byddai'r Cyngor angen o leiaf 3 wythnos o rybudd at ddibenion cymeradwyo (lle bo'n ymarferol). Dylai'r Swyddog Undeb Llafur Rhanbarthol neu'r Ysgrifennydd Cangen hysbysu a cheisio awdurdod gan y Pennaeth Personél ar gyfer absenoldeb o'r fath. Nid yw'r ddarpariaeth amser i ffwrdd yn ymestyn i fynychu Cynghorau Llafur a gweithgareddau neu faterion cysylltiol sy'n ymwneud â chysylltiad neu ymgyrchoedd gwleidyddol.

### 13. Amser i Ffwrdd ar gyfer Ysgrifennyddion Cangen ac Uwch Gynrychiolwyr Undeb

13.1 Bydd Ysgrifennydd Cangen pob undeb yn cael treulio'r cyfan neu ran o'u hamser cyflogaeth cytundebol ar ddyletswyddau undeb llafur. Bydd yr union faint o amser a roddwyd yn dibynnu ar yr aelodaeth ar gyfer pob undeb penodol a bydd yn cael ei gyfraddio yn unol â hynny.

13.2 Lle bydd ysgrifennydd cangen ar secondiad i'r rôl, bydd y secondiad hwn ar gyfer cyfnod heb ei bennu yn dibynnu ar ailethol y gweithiwr i'r rôl. Os nad yw'r secondai yn cael ei ailethol i swydd ysgrifennydd cangen neu'n dewis peidio sefyll ar gyfer ail-ethol, byddant yn cael dychwelyd i'w swydd barhaol cyn belled nad yw cyfnod y secondiad yn fwy na 12 mis. Os yw cyfnod y secondiad yn fwy na 12 mis, ni fydd y secondai yn cael dychwelyd i'w swydd barhaol, ond bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod y secondai yn cael swydd ar yr un radd gyda thelerau ac amodau gwaith cymharol.

## Polisi - Cytundeb Amser i Ffwrdd a Chyfleusterau

- 13.3 Bydd cynrychiolwyr a benodwyd fel y disgrifir ym mharagraff 4.1 yn cael amser i ffwrdd gyda thâl rhesymol yn ystod oriau gwaith arferol i ymgymryd â swyddogaethau sy'n ymwneud â'u cyfrifoldebau cynrychiadol.
- 13.4 Bydd cyfarfodydd a drefnwyd gan reolwyr lle mae'n ofynnol i gynrychiolwyr heblaw'r sawl y cyfeirir atynt ym mharagraff [13.1 uchod] fynychu, yn digwydd y tu allan i oriau cynrychiadol a ddyranwyd.

## 14. Trefniadau arbennig ar gyfer amser i ffwrdd

- 14.1 Yn achos gweithwyr sy'n gweithio sifftiau neu oriau anghymdeithasol, bydd y Sefydliad yn caniatáu amser rhesymol i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau undeb llafur ac fel arfer yn gwneud trefniadau pan fydd dyletswyddau yn disgyn y tu allan i'w horiau ar ddyletswydd.
- 14.2 Pan fydd cynrychiolwyr yn mynychu cyfarfodydd a drefnwyd gan reolwyr, bydd rheolwyr bob amser yn ceisio sicrhau bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal pan fydd y cynrychiolwyr priodol ar ddyletswydd, naill ai drwy addasu dyddiadau cyfarfodydd a/neu newid rotau lle bo'n bosibl drwy gytundeb gyda'r unigolyn dan sylw.
- 14.3 Pan fydd cynrychiolwyr, heblaw'r sawl ar secondiad llawn amser, yn mynychu cyfarfodydd a alwyd gan reolwyr yn ystod eu horiau gwaith arferol sy'n ymestyn y tu hwnt i amser gorffen arferol, yna rhoddir yr un amser i ffwrdd yn lle'r amser hwnnw ar adeg y cytunwyd arno gan y ddwy ochr, yn amodol ar drefniadau wrth gefn y gwasanaeth. Os yw'n amhosibl trefnu amser i ffwrdd yn lle'r amser yna telir am yr amser hwn a thelir ar y raddfa briodol am yr oriau ychwanegol, heblaw lle mae enillion yn amrywio gyda'r gwaith a wnaed, yna bydd y swm yn cael ei gyfrif drwy gyfeirio at yr enillion fesul awr cyfartalog am y gwaith y cawsant eu cyflogi i'w wneud, gan gynnwys lwfans sifft cyfartalog neu daliadau goramser cytundebol. Gall trefniadau amrywio i gynrychiolwyr undeb llafur mewn ysgolion.
- 14.4 Os bydd cyfarfod yn cael ei gynnal ar ddiwrnod i ffwrdd y cynrychiolydd neu os na fydd cynrychiolydd ar ddyletswydd a 14.2 uchod ddim yn bosibl yna rhoddir yr un amser i ffwrdd yn ei le ar adeg y cytunwyd arno gan y ddwy ochr, yn amodol ar drefniadau wrth gefn y gwasanaeth. Os yw'n amhosibl trefnu amser i ffwrdd yn ei le yna telir am yr amser hwn.
- 14.5 Yn achos cynrychiolwyr anabl, bydd y Sefydliad yn caniatáu amser ychwanegol a

## **Polisi - Cytundeb Amser i Ffwrdd a Chyfleusterau**

chyfleusterau, os bydd angen, a gwneud trefniadau addas i ganiatáu iddynt ymgymryd â'u cyfrifoldebau.

### **15. Amser i ffwrdd ar gyfer gweithleoedd cysylltiol**

- 15.1 Bydd ymestyn hawliau cynrychiadol ar gyfer gweithwyr y tu allan i'r sefydliad yn amodol ar gytundeb fesul achos ac yn ddi-dâl e.e. Lle mae'r Cyngor yn noddi sefydliadau allanol: Ymddiriedolaeth Bodelwyddan ac ati
- 15.2 Os bydd cynrychiolwyr angen gweithio ar brosiectau cydweithredol gydag awdurdodau eraill ar ran Cyngor Sir Ddinbych, yna rhoddir amser i ffwrdd rhesymol.
- 15.3 Lle mae cynrychiolydd undeb llafur ysgol yn gweithio yn lle gweithwyr o ysgol arall yna bydd yr ysgol lle mae'r gweithiwr a gynrychiolir wedi'i leoli yn gyfrifol am ad-dalu'r ysgol sy'n cyflogi'r cynrychiolwyr, am eu hamser yno.

### **16. Tal am amser i ffwrdd**

- 16.1 Bydd cynrychiolwyr Undeb Llafur sy'n brysur ar ddyletswyddau cydnabyddedig fel y nodwyd uchod yn derbyn tâl naill ai'r swm y byddent wedi'i ennill pe byddent wedi gweithio yn ystod yr amser a gymerwyd, neu lle mae enillion yn amrywio gyda'r gwaith a wnaed, swm wedi'i gyfrif drwy gyfeirio at yr enillion fesul awr ar gyfartaledd am y gwaith gawsant eu cyflogi i'w wneud. Bydd y swm hwn yn cynnwys bonws cyfartalog/lwfans sifft neu daliadau goramser lle mae'r rhain yn gytundebol.
- 16.2 Bydd uwch swyddog y gangen sy'n treulio'r cyfan o'u hamser cytundebol ar ddyletswyddau undeb llafur yn cael hawl i'r pecyn llawn o dâl ac amodau, y byddent wedi'i dderbyn fel arfer pe byddent yn gweithio, gan gynnwys holl lwfansau ac unrhyw hawliau i hyfforddiant neu gofrestrriad proffesiynol.
- 16.3 Bydd costau teithio a chynhaliadau yn cael ei ad-dalu gan yr undeb llafur i'r cynrychiolwyr am y cyfnodau o waith a gymeradwywyd yn unol â'r cytundeb hwn.

### **17. Hyfforddiant**

- 17.1 Bydd amser i ffwrdd gyda thâl rhesymol yn cael ei ganiatáu i fynychu cyrsiau hyfforddi a gymeradwywyd gan y TUC neu'r Undeb. Mae'r Sefydliad yn cefnogi'r angen i swyddogion

## Polisi - Cytundeb Amser i Ffwrdd a Chyfleusterau

undeb llafur newydd eu penodi gael amser i ffwrdd ar gyfer hyfforddiant ar y dechrau mewn sgiliau cynrychiadol sylfaenol gynted ag y bydd ef/hi wedi eu penodi. Yn dilyn hyn dylid ystyried amser pellach: Ar gyfer hyfforddiant pellach, yn arbennig lle mae gan y swyddog gyfrifoldebau arbennig.

- I ddelio gyda newidiadau yn y strwythur neu'r testun trafod, lle rhagwelir newidiadau sylweddol yn y drefn gwaith.
  - Lle mae newidiadau cyfreithiol yn effeithio ar ymddygiad perthynas gweithwyr.
- 17.2 Bydd mwyafswm o hyd at 5 diwrnod y flwyddyn, fesul cynrychiolydd yn cael ei ganiatáu ar gyfer hyfforddiant gorfodol CSDd.
- 17.3 Bydd yr Undeb Llafur yn rhoi digon o rybudd ymlaen llaw o ddyddiadau cwrs i reolwyr atebol perthnasol. Rhoddir manylion y cwrsar gais.
- 17.4 17.4. Bydd gweithwyr rhan amser sy'n gorfod mynychu cyrsiau hyfforddi cydnabyddedig CSDd fel y manylwyd uchod yn derbyn tâl am yramser a fynychwyd i gyd, hyd yn oed os bydd yn fwy na'u horiau gwaith arferol.
- 17.5 Mae'n bosibl y bydd angen dyrannu/cymeradwyo'r mwyafswm mynychu mewn blwyddyn ar gyrsiau hyfforddi y soniwyd amdanynt yn [8.1, 9.1 ac 17.2] yn unol â chyfyngiadau/darpariaeth cyllideb.
- 17.6 Dylid ystyried rhyddhau swyddogion amhrofiadol i gysgodi swyddogion profiadol eraill yn ystod dyletswyddau undeb llafur.

## 18. Gweithdrefnau

- 18.1 Cyn cymryd amser i ffwrdd, mae'n rhaid i'r cynrychiolwyr gael caniatâd eu rheolwr, gan hysbysu eu rheolwr am ddiben cyffredinol yr amser i ffwrdd, y lleoliad, yr amser a faint o amser fyddant ei angen i ffwrdd.
- 18.2 Bydd y cyflogwr yn sicrhau bod rheolwyr ar bob lefel yn gyfarwydd gyda chytundebau a threfniadau sy'n ymwneud â'r Cytundeb hwn. 18.3 Dylai'r trefniadau a'r gweithdrefnau ar gyfer cytuno ar amser i ffwrdd yn unol â Chod Ymarfer ACAS fod yn rhesymol yn yr holl amgylchiadau. Mae gan y Cyngor a'r Undeb Llafur gyfrifoldeb ar y cyd i sicrhau bod darpariaeth y gwasanaeth yn cael ei gynnal a phan fydd amser i ffwrdd yn cael ei ganiatáu, mae hyn yn amodol ar orfodaeth y gwasanaeth. Bydd gweithwyr sy'n gweithio o dan drefniadau oriau hyblyg yn derbyn credyd hyd at 5pm ar gyfer Cyfarfodydd Pwyllgor

## **Polisi - Cytundeb Amser i Ffwrdd a Chyfleusterau**

Gweithredol. Gall cyfarfodydd cyffredinol cangen/cyfarfodydd cyffredinol blynyddol a rhag-gyfarfodydd eraill ddechrau ar unrhyw adeg yn ystod y diwrnod gwaith, yn amodol ar lefelau digonol o staff ar draws yr awdurdod. Ni roddir credyd o dan y cytundeb oriau hyblyg i unrhyw aelod neu swyddog sy'n mynychu cyfarfodydd o'r fath. Dylai rheolwyr fod yn fodlon bod yna ddigon o staff ym mhob adran bob amser.

**D.S.** Mae trefniadau oriau hyblyg yn berthnasol lle gweithredir.

- 18.3 Er mwyn gallu monitro trefniadau ac amodau o fewn y cytundeb gweithdrefn o ganlyniad i brofiad ac at ddibenion ail godi tâl, lle bo'n briodol, amser swyddog Cangen, dylid llenwi 'Pro Fforma Cais'. Dylid anfon hwn at y Goruchwyliwr/Rheolwr priodol, a fydd, yn ei dro yn anfon copi at Bennaeth y Gwasanaeth/Pennaeth at ddibenion cofnodi. Bydd y Cyfarwyddwr yn anfon copi at y Pennaeth AD Strategol at ddibenion monitro/gweinyddu. Gellir hefyd cofnodi hwn ar y system Amser Hyblyg.
- 18.4 Gofynnir i'r Undeb gadw cofnod/cofrestr o bawb sy'n mynychu cyfarfodydd.

## **19. Cyfleusterau undeb llafur**

- 19.1 Mae'r Sefydliad yn cytuno i ddarparu cyfleusterau diffiniedig i'r cynrychiolwyr Undeb i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau yn unolâ Chod Ymarfer ACAS.

## **20. Dim niwed**

- 20.1 Ni wahaniaethir yn erbyn unigolion yn ystod eu cyflogaeth am fod yn aelod o undeb llafur neu weithgareddau fel cynrychiolyddundeb.

## **21. Anghydfod**

- 21.1 Mae'r Sefydliad a'r Undeb yn cytuno i wneud pob ymdrech i ddatrys anghydfod mewn perthynas ag amser i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau a gweithgareddau undeb llafur.
- 21.2 Lle bydd caniatâd i gymryd amser i ffwrdd yn cael ei atal, rhoddir eglurhad am y rheswm/rhesymau gan y cynrychiolydd rheolwyr priodol. 21.3 Os bydd y swyddog Undeb yn anfodlon gyda'r penderfyniad, gall y mater gael ei gyfeirio at yr uwch reolwr priodol.
- 21.3 Os na ellir dod i gytundeb, bydd y mater yn cael ei gyfeirio i'r Pennaeth AD Strategol.

## **Polisi - Cytundeb Amser i Ffwrdd a Chyfleusterau**

- 21.4 Mae'r Sefydliad yn cydnabod bod gan gynrychiolwyr undeb unigol yr hawl i fynd â hawliad i Dribiwnlys Cyflogaeth os na fydd gweithdrefnau mewnol yn datrys anghydfod sy'n ymwneud ag amser i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau undeb llafur.

### **22. Cwynion sy'n codi trwy weithredu'r cytundeb hwn**

- 22.1 Mae gan reolwyr ac Undebau gyfrifoldeb i arsylwi'r trefniadau yn y polisi hwn, a datrys holl broblemau ynglŷn â'i weithredu yn anffurfiol lle bo'n bosibl. Os bydd yna anghytuno am unrhyw agwedd o'r cytundeb hwn, fel gwrthod amser i ffwrdd i fynychu cyfarfod, dylid codi hyn gyda'r rheolwr atebol neu bennaeth yr adran i ddechrau fel arfer. Os bydd y mater yn parhau heb ei ddatrys, dylai'r cynrychiolydd drafod y broblem gyda'r Pennaeth AD Strategol.

### **23. Newid neu derfynu cytundeb**

- 23.1 Gall y naill ochr neu'r llall gyflwyno cynigion i newid y cytundeb hwn. Bydd cynigion o'r fath yn ysgrifenedig i'r ochr dan sylw ac yn amodol ar drafodaethau ar y cyd.
- 23.2 Mae'r ddwy ochr yn cytuno i adolygu'r Cytundeb hwn mewn deuddeg mis ac ar ddyddiadau y cytunwyd arnynt ar ôl hynny.